# Posteri'r Rhyfel Byd Cyntaf: Yr Angerdd, y Propaganda a Phrint

*Geiriadur Saesneg Oxford: Propoganda - Lledaenu gwybodaeth yn systematig, yn enwedig mewn modd sydd yn dangos bias neu sydd yn gamarweiniol, er mwyn hyrwyddo achos gwleidyddol neu safbwynt.*

Ailddiffiniodd y Rhyfel Byd Cyntaf ystyr a sgôp propaganda. Cyfeiriwyd propaganda tuag at gynghreiriaid a gwledydd niwtral fel ffordd o ddylanwadu, yn ogystal ag fel arf yn erbyn y gelyn. Y rhyfel hwn oedd yr un cyntaf lle targedodd llywodraethau modern y cyhoedd gyda phropaganda a grewyd ar raddfa eang. Y bwriad oedd cyfiawnhau eu gweithredoedd trwy ddisgrifio'r gelyn fel troseddwr drwg; ac yn ail, tanio angerdd y bobl a chael dynion i ymuno (cyn gorfodaeth filwrol). Nid oedd pobl yn cael eu gadael i fynd yn ddigalon; felly roedd buddugoliaethau'n cael eu gorliwio a cholledion yn cael eu cuddio neu eu lleihau a'r dicter a'r anniddigrwydd tuag at y gelyn yn cael ei gynnal.

Yn y cyfnod hwn, nid oedd y rhyngrwyd yn bodoli, dim rhwydwaith cyfathrebu byd-eang a dim sianeli newyddion 24 awr. Ar ddechrau'r rhyfel, y wasg oedd yr unig fath o gyfrwng. Roedd y wasg yn cael ei rheoli'n gynnil ond yn gyfan gwbl gan y llywodraeth. Erbyn diwedd y rhyfel roedd ffilmiau yn dangos yr un tueddiad. Prydain oedd propagandydd mwyaf llwyddiannus y rhyfel gan gyflogi perchnogion papurau newydd, golygyddion, awduron, beirdd ac yn y pen draw, gwneuthurwyr ffilmiau i ledu detholiad o wirioneddau a chelwyddau. Defnyddiodd y llywodraeth ddyfeisiadau cenedlaetholgar a mythau llenyddol trwy symbolau, motiffau, iaith, dyfeisiau seicolegol ac esthetig i greu'r posteri amrywiol sydd i'w gweld fan hyn. Mae'r arddangosfa hon yn dangos yr effaith a gafodd y rhyfel ar fywydau pobl. Mae hefyd yn dangos y rhesymau pam y gwnaeth dynion benderfynu mynd i ymladd a'r cyfraniad a wnaed gan y merched adref.

Yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf, mae propaganda sydd wedi'i drefnu yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol o unrhyw ymdrech mewn rhyfel, gan fynd yn fwyfwy pwysig yn ystod yr ugeinfed ganrif. Dangosodd y ffordd ar gyfer datblygiadau mewn hysbysebu a nodweddion eraill cymdeithas dorfol yr ugeinfed ganrif.

Ar y llaw arall, yn dilyn ymchwiliad ar ôl y rhyfel i gywirdeb straeon o erchyllterau'r rhyfel o chreulondeb yr Almaenwyr; nid oedd modd profi'r un achos. Roedd yn a effaith drychinebus pan ddaeth y cyhoedd i wybod am yr anwiredd hwn, sef betruster cyffredinol yn y 1930au a'r 1940au i gredu'r straeon erchyll go iawn a ddechreuodd ddod allan o Almaen y Natsïaid. Helpodd celwyddau'r Rhyfel Byd Cyntaf i daflu cysgod ar wirioneddau'r Ail Ryfel Byd.

